# UNED : Y FUWCH EIDION – BUCHOD AMNEWID

## CYFLWYNIAD

Mae llwyddiant y fuches eidion yn dibynnu ar amnewid buchod bridio. Bydd gwartheg sydd ddim yn cynhyrchu e.e. rhai sy'n anffrwythlon, yn gloff, â mastitis, a'u cynnyrch llaeth yn isel neu â llo o ansawdd gwael yn cael eu difa/didoli. Er bod gwartheg difa/didoli'n dod ag incwm gwerthfawr, mae polisi difa/didoli ac amnewid effeithiol yn hanfodol i leihau'r gost o ran proffidioldeb y fuches. Dylai cyfradd amnewid flynyddol y fuches gael ei chadw ar gyfartaledd o 17% neu lai.

## DIFA/DIDOLI

Mae sawl rheswm dros ddifa/ddidoli buches :

- Buchod sy'n llithro allan o batrwm lloia'r fuches – gallai'r rhain gael eu symud (ar gost) o adran buchod yn lloia yn y gwanwyn i fod yn fuchod yn lloia yn yr hydref mewn rhai achosion, neu gael eu gwerthu fel gwartheg bridio i fuchesi eraill
- Buchod anffrwythlon/hesb – y buchod sy'n methu dod yn gyflo
- Buchod â phroblemau cadair/pwrs - mae'r rhain fel arfer yn cynnwys buchod sydd wedi dioddef mastitis difrifol, ac wedi colli un neu fwy o dethi, neu fuchod lle mae'r gadair/pwrs mor llaes nes bod sugno'n anodd
- Buchod sy'n tangyflawni - mae'n anodd mesur allbwn llaeth mewn buwch eidion, ond gall pwysau diddyfnu'r llo fod yn arwydd nad ydi'r llo wedi cael digon o laeth, neu ddim wedi tyfu oherwydd geneteg wael. Yn y ddau achos yma, bydd cofnodi manwl yn dangos y buchod sydd ar fai, a bydd rhaid difa/didoli'r gwartheg hyn.
- Hen fuchod – er bod hirhoedledd yn nodwedd werthfawr mewn rhai bridiau neu mewn ambell fuwch, gallant gael problemau cenhedlu, llaetha a thueddu i gael amrywiaeth o broblemau e.e. mae clwy' llaeth ac anawsterau lloia'n digwydd yn amlach mewn hen fuchod. Pur anaml y cedwir buchod dros 10 mlwydd oed (wedi lloia 8 gwaith)

## BUCHOD AMNEWID

Soniwyd am ddewis brid mewn rhan arall, ond gellir cael buchod amnewid o un neu fwy o wahanol ffynonellau :

- Wedi eu magu gartref – gellir cadw heffrod sy'n cael eu magu gyda'r fuches i'w hamnewid . Bydd hyn yn sicrhau bioddiogelwch o'r radd flaenaf i'r fuches a heffrod o fagwraeth hysbys. Ond mae yna anfanteision posib

  - Os buchod o frid arbennig sy'n cael eu cadw, bydd rhaid i o leiaf gyfran gael eu bridio'n bur – h.y. dibynnu ar fwy nag un tarw neu darw potel (AI)
  - Os mai gwartheg croesfrid sy'n cael eu cadw, gallai dewis tad addas i gadw lloi heffrod fod yn anodd os bydd eisiau cadw nodweddion y buchod hyn.

- Wedi eu prynu- gallai prynu stoc i mewn amharu i raddau ar statws iechyd y fuches, ond mae sawl opsiwn ar gael :
  - Magu lloi heffrod wedi eu prynu – bydd yr heffrod yn dod allan o'r fuches odro, ac yn groes fridiau llaeth/eidion fwy na thebyg. Er mai nhw fydd y rhataf i'w prynu (o'r opsiynau prynu i gyd), ac er y bydd ganddyn nhw'r cyfnod hiraf i ennill imiwnedd i glefydau, mae magu lloi'n cymryd llawer o amser ac mae perygl colledion. Hyd yn oed os byddan nhw'n lloia yn 24 mis, bydd hi'n 36 mis neu fwy cyn iddyn nhw gynhyrchu llo gwerthadwy
  - Prynu heffrod wedi eu diddyfnu neu'n gofyn tarw - mae ystod fwy eang o opsiynau bridio ar gael gan fod yr heffrod yn gallu bod yn groesfridiau godro/eidion neu'n anifeiliaid eidion pur neu groesfrid. Ni fydd dim magu ar loi, a bydd yr anifeiliaid yn ddigon hen i'w porthi'n rhatach ar borfa neu borthiant wedi'i gadw. Gellir dewis y tarw â rhwyddineb lloia mewn golwg, ond bydd 18-24 mis cyn i'w lloi gael eu gwerthu
  - Prynu heffrod neu fuchod cyflo - bydd adenillion cynt (9-12 mis), ond bydd y dewis o darw a'r dyddiad tarwa allan o reolaeth y prynwr
  - Prynu heffrod neu fuchod gyda lloi – dyma'r opsiwn drutaf, ond bydd yr heffrod neu'r buchod wedi lloia, a gellir gwerthu'r lloi mewn cyn lleied â 6 mis

DEWIS

Dylid dewis buchod amnewid ar sail:

- Cyfanrwydd y traed, coesau, cadair/pwrs a chydffurfiad
- Anianawd
- Brid
- Maint
- Rhinwedd geneteg – data perfformiad /GBTau

FFYNONELLAU GWYBODAETH

HCC (2007) Gwneud y Gorau o'ch Buchod Sugno

HCC (2008) Bridio Buches Eidion Broffidiol